YOUTH SPORT TRUST
RESEARCH

Insight driving innovation and impact

# Astudiaeth Achos BE Football: Ysgol Gynradd y Frenhines Elisabeth

Meithrin cydweithrediad a chyfrifoldeb drwy gyfleoedd pêl-droed newydd.

Mai 2022

**Credu** yn nyfodol pob plentyn

YOUTH SPORT TRUST

FAW TRUST

# Cyflwyniad

Mae Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin yn ysgol gyfun gymunedol, ddwyieithog, gymysg i tua 1,500 o bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed.

Yn 2020, ymunodd yr Ysgol â rhaglen BE Football. Mae BE Football yn cael ei chyflawni gan yr Youth Sport Trust a'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Ei nod yw cyflwyno pêl-droed i ysgolion drwy ddull sgiliau bywyd i ferched. Mae BE Football yn archwilio sut gall athrawon ennyn diddordeb merched mewn addysg gorfforol y cwricwlwm drwy bêl-droed, yn nodi ac yn datblygu sgiliau bywyd, ac yn helpu i rymuso merched i arwain gweithgareddau pêl-droed i bobl eraill.

# Cefndir

Cyn BE Football, roedd gan yr ysgol nifer o ferched a oedd yn hoffi chwarae pêl-droed, ond er bod darpariaeth pêl-droed allgyrsiol i fechgyn, doedd yr un peth ddim yn wir i ferched. O ran y cwricwlwm, roedd pob disgybl o flwyddyn saith i naw yn cael tua chwe wythnos o bêl-droed bob blwyddyn. Roedd ychydig o arweinwyr chwaraeon yn yr ysgol eisoes, ond disgyblion hŷn oeddent yn bennaf (h.y. ym mlwyddyn deg a'r chweched dosbarth). Roedd yr athrawes arweiniol yn teimlo y byddai BE Football yn gyfle gwerthfawr i gynyddu ei sgiliau o ran darparu pêl-droed ac i greu cronfa o arweinwyr ifanc a allai gefnogi rhagor o sesiynau pêl-droed ar draws yr ysgol.

Cafodd wyth merch o flwyddyn wyth, oedd â diddordeb mewn pêl-droed eisoes, eu recriwtio fel Dylanwadwyr BE Football. Dywedodd yr athrawes arweiniol fod y cit y cafodd y merched fel rhan o BE Football yn gymhelliant da iddynt gofrestru ar gyfer y rhaglen.

# Gweithgareddau

## Hyfforddiant

Cymerodd wyth o Ddylanwadwyr BE Football ran mewn cwrs hyfforddi ar-lein[1]. Roedd hwn wedi ysbrydoli'r merched ac wedi'u cyflenwi â'r sgiliau a'r wybodaeth i fod yn arweinwyr ifanc. Un o'r prif heriau oedd cadw diddordeb y merched yn ystod yr hyfforddiant ar-lein.

## Sesiynau pêl-droed

Drwy BE Football, mae'r athrawes arweiniol a'r Dylanwadwyr BE Football wedi sefydlu sesiwn bêl-droed allgyrsiol i ferched ar ôl ysgol bob dydd Gwener. Mae'r Dylanwadwyr BE Football yn cael swyddogaethau clir i gefnogi'r sesiwn, er enghraifft mae un yn gyfrifol am sgiliau pêl-droed, un arall am y cit ac ati. Mae tua 20 o ferched o flynyddoedd saith ac wyth yn mynychu'r clwb yn rheolaidd; doedd tua phump ohonynt erioed wedi chwarae pêl-droed o'r blaen. Mae llawer o'r merched eraill sy'n mynychu'r sesiynau yn chwarae pêl-droed mewn clybiau y tu allan i'r ysgol.

[1] Oherwydd Covid-19, roedd rhaid darparu'r hyfforddiant ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb.

“Mae rhoi swyddogaethau i bob un ohonyn nhw yn cyflwyno’r sgiliau bywyd hynny.  Mae ganddyn nhw rôl glir, ac yn gallu ysgwyddo cyfrifoldeb.”

**(CAROL JONES, ATHRAWES ADDYSG GORFFOROL YN YSGOL UWCHRADD Y FRENHINES ELISABETH)**

### Darparu fel rhan o’r cwricwlwm

Mae BE Football wedi helpu’r athrawes arweiniol i roi rhagor o bwyslais ar sgiliau bywyd drwy’r ddarpariaeth pêl-droed yn y cwricwlwm, er enghraifft mae’n esbonio, i wneud tacl llwyddiannus, bydd angen i’r bobl ifanc gynyddu eu cadernid i wneud yn siŵr nad ydyn nhw’n rhoi’r gorau iddi.  Hefyd, nododd yr athrawes arweiniol fod hyn yn cyd-fynd yn agos â’r cwricwlwm newydd yng Nghymru, sy’n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau bywyd.  Mae adnoddau BE Football wedi’i helpu hi i wneud hyn.

“Roeddwn i’n meddwl bod yr adnoddau’n wych er mwyn dangos sut mae modd ymgorffori’r sgiliau bywyd.”

**(CAROL JONES, ATHRAWES ADDYSG GORFFOROL YN YSGOL UWCHRADD Y FRENHINES ELISABETH)**

## Budd-daliadau

### Ymarferydd



Roedd yr athrawes arweiniol a gymerodd ran yn hyfforddiant BE Football wedi mwynhau’r gweithgareddau ei hun ac yn teimlo ei bod wedi gwella ei sgiliau, a’i gwybodaeth am ddarpariaeth pêl-droed. Mae wedi dysgu gweithgareddau newydd, difyr a llawn hwyl y bydd hi’n gallu defnyddio ar gyfer y disgyblion yn ôl yn yr ysgol, ac mae BE Football wedi’i helpu i roi rhagor o bwyslais ar sgiliau bywyd drwy bêl-droed.

“Nes i fwynhau [yr hyfforddiant] yn fawr, roeddwn i wrth fy modd yn cymryd rhan……rhaid imi gofio’r wefr honno a dyna dwi am ei roi i’r plant newydd sy’n cyrraedd...mae’n bwysig eu bod nhw’n teimlo’n hapus.”

**(CAROL JONES, ATHRAWES ADDYSG GORFFOROL YN YSGOL UWCHRADD Y FRENHINES ELISABETH)**

## Pobl ifanc

### Cyfleoedd pêl-droed



Mae BE Football wedi creu cyfleoedd newydd i ferched gymryd rhan mewn pêl-droed.  Mae'r athrawes arweiniol yn credu bod cynnig sesiynau i ferched yn unig, yn hytrach na sesiynau cymysg, wedi annog rhai o'r merched i chwarae pêl-droed.  Gofynnwyd i sampl o'r merched a oedd wedi cymryd rhan ddefnyddio un gair i ddisgrifio'r cyfleoedd pêl-droed; y gair a ddefnyddiwyd amlaf oedd "hwyl". Cafodd "gwych" a "cyfeillgar" eu crybwyll hefyd.  Mae nifer o ferched o'r ysgol yn cymryd rhan yn y sesiwn allgyrsiol wythnosol ac mae'r ysgol yn dechrau cymryd rhan mewn rhagor o gystadlaethau pêl-droed, er enghraifft mae eisoes wedi cael llwyddiant yng nghystadleuaeth gwpan Cynghrair Pêl-droed Lloegr.  Mae rhai o'r merched wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn sesiynau hyfforddi'r bechgyn hefyd.

"Mae'n lle gwych i ddod a chael hwyl, hyd yn oed os nad chi yw'r pêl-droediwr gorau."

**(CYFRANOGWR)**

"Gawson ni chwarae pêl-droed o'r diwedd."

**(CYFRANOGWR O FLWYDDYN 7)**

### Cydweithredu a chyfrifoldeb



Roedd yr athrawes arweiniol wedi pwysleisio bod y Dylanwadwyr wedi gwneud camau breision ers dechrau'r rhaglen; disgrifiodd sut eu bod bellach yn cydweithio fel tîm, yn ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb am eu penderfyniadau yn ystod y sesiynau pêl-droed, ac yn ymgymryd â swyddogaethau arwain a dylanwadu yn y sesiynau.  Er enghraifft, erbyn hyn ni fyddent yn cicio pêl dros y ffens, gan eu bod yn deall yn well beth mae hyn yn ei olygu i'r tîm cyfan, maen nhw wedi dysgu mai ymdrech tîm yw paratoi'r sesiynau, neu fod rhywun yn gorfod bod yn gyfrifol am wahanol elfennau, fel trefnu'r bibiau.  Yn bwysig, mae'r rhaglen BE Football wedi helpu'r merched i ddatblygu sgiliau bywyd allweddol ac i aeddfedu.

### Cysylltiadau a pherthnasoedd



Dywedodd yr athrawes arweiniol fod y berthynas rhwng merched yn yr ysgol wedi bod yn fwy o her dros y blynyddoedd diwethaf nag erioed o'r blaen.  Mae'r sesiynau BE Football yn dod â merched o wahanol grwpiau ffrindiau ynghyd ac maen nhw wedi helpu i ddatblygu nodweddion allweddol ymysg y merched, fel amynedd a charedigrwydd.

Ar ben hynny, am y tro cyntaf erioed mae BE Football wedi dod â merched o'r ddau glwb pêl-droed cymunedol lleol at ei gilydd. Hyd yn

oed o fewn y clybiau cymunedol eu hunain, mae merched o wahanol oedrannau'n dueddol o chwarae mewn timau gwahanol, felly anaml maen nhw'n cymysgu yn y clwb. Mae'r holl ferched yn chwarae gyda'i gilydd yn y sesiynau BE Football.

"Mae'n gyfle i ferched y ddau dîm gyd-dynnu a meithrin perthynas."

**(CAROL JONES, ATHRAWES ADDYSG GORFFOROL YN YSGOL UWCHRADD Y FRENHINES ELISABETH)**

Y peth gorau am gymryd rhan oedd "gwneud ffrindiau a gwella fy sgiliau pêl-droed."

**(CYFRANOGWR O FLWYDDYN 7)**

# Y dyfodol

Mae'r ysgol yn bwriadu parhau i ddarparu'r clwb pêl-droed allgyrsiol flwyddyn nesaf ac yn gobeithio recriwtio disgyblion newydd blwyddyn 7 i'r clwb. Mae hefyd yn llunio ei chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd a bydd yn adeiladu ar BE Football ynddo.

# Cyngor Campus

- ✓ Cadwch bethau'n ysgafn i annog merched i gymryd rhan; meddyliwch am weithgareddau cynhesu hwyliog i ddechrau, yn hytrach na rhai technegol.
- ✓ Meddyliwch yn ofalus am y Dylanwadwyr BE Football rydych chi'n eu recriwtio i wneud yn siŵr eu bod yn cynrychioli'r merched sy'n mynychu'r ysgol, er enghraifft gellid dewis dylanwadwyr o fwy nag un grŵp blwyddyn, neu ddewis cymysgedd o ferched sy'n chwarae pêl-droed a rhai sydd ddim yn chwarae pêl-droed.
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod gan yr athro arweiniol ddigon o amser i gefnogi'r Dylanwadwyr BE Football a darpariaeth y rhaglen. Gellid recriwtio dau aelod arweiniol o staff o wahanol adrannau i helpu i ddarparu ac i wreiddio'r rhaglen ar draws yr ysgol.
- ✓ Ystyriwch gynnwys gwobrau a chydnabyddiaeth i helpu i gymell y merched sy'n rhan o'r rhaglen ac i gydnabod eu llwyddiannau, er enghraifft cit newydd neu dripiau pêl-droed lleol.

Youth Sport Trust
SportPark
Loughborough University
3 Oakwood Drive
Loughborough
Leicestershire
LE11 3QF

01509 226600
research@youthsporttrust.org
www.youthsporttrust.org

Rhif Cofrestru'r Elusen 1086915
Rhif Cofrestru'r Cwmni 4180163